

# A fu i Iesu ddweud celwydd erioed?

“Profwch eich hunain i weld a ydych yn y ffydd; chwiliwch eich hunain.” (adn. 5)

## Beth am ddarllen 2 Corinthiaid 13:1–10 ac yna myfyrio

Mae anawsterau moesol, fel y gwelwyd ddoe, yn aml yn cyfrannu at ddallineb ysbrydol. Mewn byd moesol, y peth allweddol yw ymateb moesol ac, felly, fel Cristnogion, mae angen i ni sicrhau yn fynych fod ein bywyd ni yn ddigonol gyda golwg ar gwestiynau moesol.

Yn ei lyfr *Strengthening Your Grip*, dywed Charles Swindoll am feddyg yn Efrog Newydd, gŵr o'r enw Dr Evan O'Neill, oedd wedi ei berswadio i'r fath raddau y gellir cyflawni rhai llawdriniaethau pan fo claf o dan anesthetig lleol, fel y bu iddo, er mwyn profi ei bwynt, gyflawni llawdriniaeth arno ei hunan trwy dynnu ei bendics. Yr oedd y llawdriniaeth yn llwyddiannus, ac fe fu iddo wella yn gyflymach na'r arferol yn dilyn y fath driniaeth. Gaf i awgrymu eich bod chi'n cyflawni llawdriniaethau arnoch chi eich hunan wrth inni fynd trwy'r astudiaethau yma, nid rhai corfforol, wrth gwrs, ond rhai ysbrydol. Gallwn alw hyn yn llawdriniaeth bersonol yr enaid. A ni yn gwbl ymwybodol, beth am ganiatáu i'r Ysbryd Glân i'n cynorthwyo i weithio ar ein henaid gyda'r unig offeryn sydd ei angen, yr Ysgrhythur ei hun.

Beth am ddechrau trwy ystyried y cwestiwn: “A wyf yn berson y gellir dibynnu arno i ddweud y gwir ymhob sefyllfa?” Wedi dod yn Gristion, cefais hi'n anodd iawn i beidio â dweud celwydd. Roeddwn yn dweud celwydd wrth fy rhieni, wrth fy athrawon, ac wrth fy ffrindiau. Roedd yr awydd i newid ystyr rhywbeth er mwyn ennill dadl, i ychwanegu er mwyn creu argraff, wedi treiddio yn ddwfn i'm natur. Roedd yn rhaid gwneud penderfyniad penodol i beidio â dweud celwydd. Yn achos y Cristnogion cynnar wrth iddyn nhw sefyll o flaen y tribiwnlys, mi fuasai'n hawdd iawn iddynt achub eu bywydau trwy ddweud rhyw gelwydd bychan. Ond roedd yn well ganddynt farw. A ddywedodd Iesu gelwydd erioed? Yr ateb, wrth gwrs, yw “Na”. Ni all Iesu ddweud celwydd ac nid yw yn rhoi yr hawl i ninnau ychwaith i ddweud celwydd.

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Ex. 20:16; Salm 139:23–24; Math. 5:8; Eff. 4:17–32

## Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut mae'n bosibl inni gadw golwg ar ein hiechyd ysbrydol?
2. Pam fod angen inni gadw golwg?

## Gweddi

Dad nefol, dyro hyder i mi lefaru y gwirionedd, y gwirionedd i gyd a dim byd ond y gwirionedd – a gwneud hynny ymhob man a phob amser. Yn enw Iesu. Amen.